# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Taith eich cais

## 1. Gwneud cais am Gredyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn helpu i sicrhau bod hawlwyr yn well eu byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau. Mae ar gael i bobl sydd allan o waith neu ar incwm isel, ac yn darparu cymorth iddynt baratoi at waith, symud i mewn i waith neu ennill mwy

Gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein yn www.gov.uk/universalcredit

Gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol yn y Gymraeg drwy ffonio 0800 012 1888.

NID OES ffurflen gais papur ar gyfer Credyd Cynhwysol, ond mewn amgylchiadau eithriadol gall cais gael ei wneud dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno fesul cam. Mae os gallwch wneud cais amdano yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'ch amgylchiadau personol. Gallwch edrych os gallwch gael Credyd Cynhwysol drwy fynd i www.gov.uk/universalcredit.

Os ydych yn gymwys byddwch yn cael cyfarwyddiadau clir ar sut i symud ymlaen i wneud eich cais. Os nad ydych yn gymwys byddwch yn cael eich cyfeirio at help ar-lein am fudd-daliadau eraill y gallech fod yn gymwys iddynt.

Disgwylir i geisiadau am Gredyd Cynhwysol gael eu gwneud ar-lein.

Mae rhif ffôn ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm, i gael help a chyngor ar wneud cais ar-lein.

Os oes problemau technegol gyda'r safle GOV.UK bydd tudalen we yn cael ei arddangos sy'n rhoi trefniadau cyswllt amgen. Bydd hyn hefyd yn wir os ydych yn defnyddio porwr rhyngrwyd na ellir cael mynediad cywir i'r safle.

# 2. Gweithgaredd ar-lein gyda chais newydd

Wrth wneud cais, gofynnir i chi roi eich manylion personol gan gynnwys eich Rhif Yswiriant Gwladol.

Bydd angen i chi gael yr holl wybodaeth rydych ei angen i wneud cais wrth law, gan fod yn rhaid iddo gael ei gwblhau mewn un sesiwn. Bydd y wefan yn dweud wrthych ba fath o wybodaeth y bydd angen i chi gael gyda chi.

Os ydych chi a'ch partner yn gwneud cais fel cwpwl, dim ond un ohonnoch fydd angen cwblhau'r ffurflen ar-lein, ond bydd angen i'r person hwnnw nodi manylion ar gyfer y ddau ohonoch.

Byddwch yn mynd trwy broses diogelwch a fydd yn gofyn i chi deipio mewn rhai llythrennau a/neu rifau fel y maent yn ymddangos ar y sgrin. Mae hon yn broses safonol mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi ar waith i wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth bersonol yn saff a diogel.

Yna gofynnir cyfres o gwestiynau a fydd yn penderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

Os nad ydych yn gymwys i wneud cais am Gredyd Cynhwysol bydd neges yn ymddangos ar y sgrin sy'n dweud wrthych ac yn eich cyfeirio at wybodaeth bellach am fudd-daliadau a chredydau y gallech fod yn gymwys i'w cael.

Pan fyddwch yn gwneud cais Credyd Cynhwysol byddwch yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol amdanoch chi a'ch amgylchiadau ar-lein. Fodd bynnag, os oes gennych gwestiynau am eich cais ar ôl y cam hwn, neu os ydych am ddweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau am newidiadau yn eich amgylchiadau, bydd hyn yn cael ei wneud dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# 3. Gweithgaredd ar-lein gyda chais newydd

Unwaith y byddwch wedi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen gais, byddwch yn gweld crynodeb o'r wybodaeth rydych wedi'i roi a gofynnir i chi gadarnhau'r manylion.

Byddwch yn gallu mynd yn ôl a chywiro unrhyw gamgymeriadau yn ystod y cam hwn cyn i chi roi cadarnhad terfynol bod y wybodaeth yn gywir.

Ar unwaith, bydd ffigwr yn cael ei arddangos sy'n dangos beth mae rhywun yn eich amgylchiadau yn debygol o'i gael i gwmpasu anghenion eu cartref Arweiniad yn unig fydd hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gennych, a gall fod yn wahanol i'r swm a gewch mewn gwirionedd.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu ar gyfer y cartref yn ei gyfanrwydd a, lle bo'n briodol, mae'n cynnwys costau tai.

Os ydych yn mynd i gael Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi fodloni'r cyfrifoldebau ar gyfer ei gael. Mae hyn yn cynnwys derbyn Ymrwymiad Hawlydd personol a fydd eich cofnod o'r hyn fyddwch chi'n ei wneud yn gyfnewid am gael Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpl, bydd angen i'r ddau ohonoch dderbyn Ymrwymiad Hawlydd. Bydd gan y naill ar llall Ymrwymiad Hawlydd ei hunan, ac efallai y caiff un chi ei effeithio os yw eich partner yn dechrau gweithio neu bod eu hamgylchiadau yn newid.

Bydd taliadau yn cael eu gwneud yn fisol, gyda rhywfaint o hyblygrwydd posibl mewn rhai amgylchiadau. Byddwch yn cael mwy o wybodaeth am pryd mae eich taliadau yn daladwy drwy neges ar y sgrîn.

**Yna byddwch yn cyflwyno eich cais. Y dyddiad cais fydd y dyddiad cyflwyno.**

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# 4. Cymorth ffôn a chyfweliad chwilio am waith

Ar ôl i chi wneud eich cais Credyd Cynhwysol, bydd y rhan fwyaf o ryngweithio wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy'r post. Ymhen amser bydd yr ystod o weithgareddau Credyd Cynhwysol y gellir ei wneud ar-lein yn cynyddu.

Mae llinell gymorth dros y ffôn ar gael, dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am i 6.00pm.

Ffoniwch 0345 600 0723*.

Cymraeg: 0345 600 3018.

Nid yw galwadau i rifau 0345 yn costio dim mwy na galwad ddaearyddol safonol, ac maent yn cyfrif tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich cytundeb llinell ddaearol neu ffôn symudol.

Ar ôl cyflwyno eich cais bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â chi dros y ffôn i ddweud wrthych beth yw dyddiad eich cyfweliad chwiliad gwaith personol a pha dystiolaeth sydd angen i chi ddod gyda chi. Bydd neges testun yn cael ei anfon i gadarnhau manylion yr apwyntiad.

Os ydych yn gwneud cais fel cwpwl bydd y ddau ohonnoch yn cael apwyntiadau gan y Ganolfan Byd Gwaith i ddod i mewn a cyfarfod eich anogwr gwaith.

Cyn y cyfweliad gofynnir i chi:

- cadarnhau pwy ydych a darparu dogfennau sy'n cefnogi eich cais Credyd Cynhwysol
- llofnodi copi o fanylion eich cais

Yn y cyfweliad byddwch yn

- trafod eich chwiliad gwaith a llunio Ymrwymiad Hawlydd. Bydd yn rhaid i chi dderbyn eich Ymrwymiad Hawlydd fel amod o hawl i Gredyd Cynhwysol. Byddwch yn cael copi o hwn i fynd adref
- cael gwybod am y cymorth sydd ar gael, fel Paru Swyddi Ar-lein
- trafod unrhyw gymorth cyllidebu y gallech fod angen
- cael eich atgoffa am eich cyfrifoldebau a beth fydd yn digwydd os byddwch yn methu cwrdd â'ch cyfrifoldebau.

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpwl bydd gan y naill ar llall Ymrwymiad Hawlydd ei hunan.

Os nad ydych yn derbyn yr Ymrwymiad Hawlydd bydd y cais yn cael ei gau.

**Byddwch yn cael gwybod y gall eich llythyr penderfyniad gael ei ddefnyddio fel prawf o'ch cais wrth wneud cais am fudd-daliadau eraill sydd ar gael i hawlwyr Credyd Cynhwysol. Bydd y llythyr hwn yn cael ei bostio atoch.**

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# 5. Newid mewn amgylchiadau a newid i enillion

Chi sy'n gyfrifol am hysbysu'r Adran Gwaith a Phensiynau o'r holl newidiadau yn eich amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw gyfnodau o waith, a gallwch wneud hyn drwy'r llinell gymorth Credyd Cynhwysol. Pan fyddwch yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau am newid yn eich amgylchiadau, byddwch yn derbyn cadarnhad o'r newid hwn drwy'r post. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw effaith a gaiff hyn ar eich taliadau Credyd Cynhwysol, i'ch helpu i reoli eich arian.

Pan fyddwch yn gweithio, naill ai bydd angen i chi neu eich cyflogwr hysbysu faint yw eich cyflog mynd adref yn fisol. Gall y swm newid bob mis, a bydd swm y Credyd Cynhwysol a gewch yn cymryd yr enillion hynny i ystyriaeth. Ni fydd angen i chi gau eich cais i lawr dim ond oherwydd eich bod wedi dechrau gweithio.

Talu Wrth Ennill (PAYE) mewn amser real yw'r system newydd a fydd yn caniatáu i gyflogwyr i ddarparu Cyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am enillion eu gweithwyr.

Pan rydych mewn gwaith bydd angen i chi dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau pwy yw eich cyflogwr. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dweud wrthych os yw eich cyflogwr ar y system PAYE mewn amser real, ac os nad ydynt bydd angen i chi hysbysu eich cyflog mynd adref eich hunan.

Dylech hysbysu unrhyw gyflogaeth sy'n dod i ben dros y ffôn.

Chi sy'n gyfrifol am hysbysu **pob newid** mewn amgylchiadau. Os byddwch yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hwyr am newid sy'n golygu bod gennych hawl i Gredyd Cynhwysol uwch, ni fydd taliadau yn cael eu hôl-ddyddio. Fodd bynnag, os byddwch yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hwyr am newid sy'n lleihau'r swm rydych yn ei gael bydd arian yn cael ei dynnu o'ch taliadau am gyfnod er mwyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau adennill yr arian ychwanegol rydych wedi'i gael.

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# 6. Newid mewn amgylchiadau, ychwanegu partner a chau cais

Os byddwch yn dod yn rhan o gwpl, bydd yn ofynnol i chi a'ch partner fynychu cyfweliad gyda anogwr gwaith. Os ydych eich dau yn gallu cael Credyd Cynhwysol byddwch yn cael un taliad ar gyfer y teulu cyfan.

Os oes gan eich partner newydd fudd-dal sy'n bodoli eisoes (Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai) neu gredydau treth, bydd angen cau'r cais hwnnw.

Os ydych yn gwneud cais fel cwpwl ac mae hynny yn newid, neu os yw un ohonnoch yn dechrau gweithio neu os ydych yn dechrau teulu, bydd angen i chi ddweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn syth.

**Unwaith rydych ar Gredyd Cynhwysol byddwch yn aros arno hyd yn oed os bydd eich amgylchiadau'n newid cyn belled eich bod yn parhau i gwrdd â'r amodau cymhwyso.**

**Gallwch barhau i gael Credyd Cynhwysol unwaith y byddwch yn dechrau gweithio. Bydd eich cais ond yn cael ei gau wedi 6 mis o ddim taliadau Credyd Cynhwysol.**

**Os ydych yn symud i ardal lle nad yw Credyd Cynhwysol yn fyw eto ond yn aros o fewn Prydain Fawr (noder nad yw Gogledd Iwerddon ym Mhrydain Fawr), byddwch yn parhau i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.**

**Os ydych yn symud i ardal lle nad yw Credyd Cynhwysol yn fyw eto bydd y gwasanaeth wyneb yn wyneb yn cael ei gyflenwi trwy'r ganolfan gwaith a gwasanaethau'r cyngor yn eich lleoliad newydd.**

Mae llinell gymorth dros y ffôn ar gael, dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am i 6.00pm.
Ffoniwch 0345 600 0723*.
Cymraeg: 0345 600 3018.

Nid yw galwadau i rifau 0345 yn costio dim mwy na galwad ddaearyddol safonol, ac maent yn cyfrif tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich cytundeb llinell ddaearol neu ffôn symudol.

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/universalcredit neu'r pecyn cymorth Credyd Cynhwysol i bartneriaid.**